# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Ebrill, 2016 at 10.00 am

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor V. Smith (Vice Chairman)

County Councillors: A. Easson, A. Webb and S. White

Also in attendance County Councillor(s):

### OFFICERS IN ATTENDANCE:

| | |
|---|---|
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Sharran Lloyd | LSB Development Manager |
| Matthew Gatehouse | Policy and Performance Manager |
| Richard Jones | Improvement Support Officer |
| Hazel Clatworthy | Sustainability Community Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

### APOLOGIES:

County Councillors D. Dovey, S. Jones, P. Jordan and K. Williams

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir V.E. Smith fuddiant personol, manteisiol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed cofnod 6, Craffu Partneriaethau, oherwydd ei bod yn Aelod o Gymdeithas Tai Cyngor Sir Fynwy.

2. **Cyfarfod arbennig ar gyfer cyllideb ar y cyd.**

Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Dethol ar y Cyd dyddiedig 16eg Rhagfyr 2015.

3. **Pwyllgor craffu Cymunedau cryf dyddiedig 25ain Chwefror 2016.**

Cadarnhawyd cofnodion Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 25ain Chwefror 2016 a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. **Cyfarfod arbennig – Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf dyddiedig 17eg Mawrth.**

Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 17eg Mawrth 2016 a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

5. **Polisi Datblygu Cynaliadwy.**

Cyd-destun:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

Darparu'r Pwyllgor Dethol â'r cyfle i graffu'r Polisi Datblygiad Cynaliadwy arfaethedig cyn ceisio penderfyniad y Cyngor llawn.

Materion Allweddol:

Yn Ebrill 2016 daeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Cymru) yn gyfraith gan nodi beth mae datblygiad cynaliadwy yn ei olygu yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymhwyso egwyddor datblygiad cynaliadwy i fwyhau'u cyfraniad i saith o nodau llesiant cenedlaethol.

Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r Ddeddf yn gynnar. Fel rhan o'r agwedd hon gweithiodd y Cyngor gyda Swyddfa Archwiliad Cymru a gynhyrchodd adroddiad ar barodrwydd y Cyngor. Cyflwynwyd canlyniadau'r gwaith hwn yn y Pwyllgor Archwilio ac yn y Cabinet ac fe'u defnyddiwyd fel cymorth i weithredu'r Ddeddf.

Mae Datblygiad Cynaliadwy bob amser wedi bod yn ganolog i'r modd y gweithredwn fel Cyngor. Bydd yr awdurdod nawr yn diwygio'i bolisi presennol i adlewyrchu'r Ddeddf a sicrhau dealltwriaeth glir a chyson ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn caniatáu i'r sefydliad gael eglurder ar draws ei fframwaith polisi a bydd disgwyl i bolisïau a rhaglenni a ddygir gerbron yr Aelodau i'w penderfynu yn y dyfodol ei hadlewyrchu.

Craffu Aelodau:

Wedi craffu'r adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cymerwyd y rhan fwyaf o'r polisi cynaliadwy o ddeddfwriaeth sy'n annhebygol o newid yn y dyfodol. Felly, fe allai fod yn briodol adolygu'r polisi eto yn 2018 i weld a yw'n dal yn unol â'r asesiad o lesiant.

- Gosodir strwythurau yn eu lle i nodi a ydym ni fel awdurdod yn cyfrannu at ein nodau. Gallai aelodau a Swyddfa Archwilio Cymru herio a dynodi problemau posib. Gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth yn gymorth i ddynodi unrhyw broblemau posib.

- Roedd materion yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ar frig blaenoriaethau'r awdurdod. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn asesu hyn gyda'r bwriad o wella llesiant pobl. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn integreiddio'n fwy effeithiol gyda Meddygon Teulu a gwasanaethau nyrsio i ganiatáu i'r Awdurdod ymyrryd yn gynt a darparu cefnogaeth briodol.

- Ers 15fed Tachwedd 2015 cyflwynwyd rhestri gwirio newydd sy'n benodol i bob un o'r Nodau Llesiant.

Argymhelliad:

(i) Mae angen i ni sicrhau'n bod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau a'n bod yn ddigon gwybodus i ddeall y broses;

(ii) Dylai'r polisi fod yn haws ei ddefnyddio;

(iii) Dylai swyddogion weithio gyda'r Adran Gynllunio parthed cynaliadwyedd a'r Cynllun Datblygu Lleol.

6. **Craffu Partneriaethau: Ystyried yr Ymarferiad Mapio Partneriaeth a'r ystod gwasanaethau a ddarperir gan bartneriaid sy'n derbyn cyllid grant (I ddilyn).**

Cyd-destun:

Darparu gwybodaeth berthnasol ar bartneriaethau ar gyfer y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf

- parthed cyfraniad mudiadau trydydd sector.
- Canolbwyntio ar gynrychiolaeth, gweithgarwch a chyflenwi partneriaid y trydydd sector ar draws y tirlun partneriaethau o fewn Sir Fynwy, dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (y Bwrdd Gwasanaethau Lleol blaenorol).
- Cael trosolwg o'r cyllid a ddarperir i bartneriaid trydydd sector.

Materion Allweddol:.

Yn 2012, symleiddiodd Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru "Cydamcanu, Cydymdrechu" y tirlun partneriaeth, drwy leihau cymhlethdod a dyblygu, a rhyddhau adnoddau drwy ddatblygu Byrddau Iechyd Lleol a'r Cynllun Sengl Integredig, Yn Ebrill 2016, daeth Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i rym a thrawsnewidiwyd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Fynwy i mewn i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, â chyfrifoldeb dros oruchwylio'r flwyddyn oedd yn weddill o'r Cynllun Integredig Sengl, sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2017.

Yn dilyn archwiliad ac adolygiad o'r tirlun partneriaeth newydd yn 2014/15, canolbwyntiodd y Tîm Partneriaeth Strategol ar ffurfio'r tirlun partneriaeth i mewn i strwythur a oedd yn hygyrch i'r holl bartneriaid. Mapiwyd ac adolygwyd grwpiau partneriaeth strategol a galluogodd hyn y tîm i ddeall cymhlethdodau trefniadau partneriaeth, cadernid llywodraethu mewn partneriaeth a sut oeddent yn cyfrannu at wella canlyniadau poblogaeth a ddynodwyd yn y CIS ar gyfer Sir Fynwy ac yn adrodd i mewn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r tirlun Partneriaeth yn Sir Fynwy yn llawn gofleidio gweithio amlasiantaethol, gyda chynrychiolaeth o ystod eang o sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector, sy'n gweithio'n gydweithredol i wella'r canlyniadau i breswylwyr Sir Fynwy. Mae cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn ffurfio rhan allweddol o'r mecanwaith cyflawni ar draws y sir, ac mae'n bwysig bod gan y Pwyllgor Dethol drosolwg cadarn o'r gwaith hwn a chyfraniad partneriaid trydydd sector yr Awdurdod yn y tirlun llydan ac amrywiol hwn.

Mae cyllid ar gael i rai o bartneriaid trydydd sector yr Awdurdod, sy'n cyfrannu tuag at ganlyniadau Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy. Mae'r cyllid yn cynnwys y canlynol:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

| Sefydliad | Prosiect | Swm 2016/17 |
|---|---|---|
| GAVO | Compact Trydydd Sector | £12,000 |
| Canolfan Cyngor ar Bopeth | Gwasanaeth Cyngor | £57,105 |
| Home Start | Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf | £31,000 |
| Crossroads, Gofalwyr Ifanc | Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf | £50,486 |
| **Cyfanswm** | | **£150,591** |

Craffu Aelodau:

Wedi craffu'r adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gwnaed cyflwyniad a dangoswyd fideo i'r Pwyllgor Dethol ynghylch y mater hwn.
- Mae Home Start wedi gwneud gwahaniaeth. Mae ysgolion yn fodlon â'r deilliannau.
- Mae cyfraniad ariannol yr Awdurdod i GAVO yn sicrhau ein bod yn cael gwerth ein harian o'r gwasanaeth hwn. Mae GAVO yn chwarae rhan bwysig fel un o'n partneriaid.
- Bydd GAVO yn dod i gyfarfod y Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.
- Mae Canolfan Cyngor ar Bopeth (CCB) yn darparu gwaith ardderchog a bydd yn dod i gyfarfod y Pwyllgor Dethol Oedolion yn y dyfodol.
- Nodwyd bod cyfraniad y Cyngor Cymuned i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn llai yn gyffredinol na'r cyfraniadau a ddarparwyd gan y Cynghorau Tref o fewn Sir Fynwy. Byddai gwybodaeth am braeseptau trethdalwyr yn help i benderfynu faint dylai pob cyngor cymuned ei gyfrannu i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Mae GAVO hefyd yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru.

Penderfynasom dderbyn argymhellion yr adroddiad, fel yr amlinellir isod:

(i) Bod gan y Pwyllgor Dethol trosolwg o'r strwythur a'r tirlun partneriaeth sy'n cyfrannu at gyflawni Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy, dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(ii) Bod y Pwyllgor Dethol yn adolygu swyddogaeth y trydydd sector a'r modd y mae'n cyfrannu at Gynllun Integredig Sengl Sir Fynwy

(iii) Bod y Pwyllgor Dethol yn adolygu'n feirniadol, gynrychiolaeth, taeniad a rhychwant sefydliadau trydydd sector ar draws tirlun partneriaeth Sir Fynwy a pha mor dda y cânt eu cynrychioli ar hyn o bryd dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(iv) Bod y Pwyllgor Dethol yn adolygu a bod ganddo drosolwg clir o'r trefniadau cyllido a ddyrannwyd gan Gyngor Sir Fynwy i sefydliadau trydydd sector.

**7. Craffu ar yr Amcanion Gwella wrth ddatblygu'r Cynllun Gwella ar gyfer 2016-2017.**

Cyd-destun:

Craffu'r Amcanion Gwelliant a gynhwysir yng Nghynllun Gwelliant 2016-17 o flaen penderfyniad gan y Cyngor ar 12$^{fed}$ Mai 2016.

Materion Allweddol:.

Mae gosod Amcanion Gwelliant blynyddol a chynhyrchu Cynllun Gwelliant Yn ofynion statudol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Cynhyrchir y Cynllun Gwelliant mewn dwy ran. Dyma adran flaengar y Cynllun ac mae wedi'i ffocysu ar ymrwymiadau a dyheadau. Mae'n rhoi cyfle i osod y cyfnodau allweddol a fydd yn cyflenwi blaenoriaethau addysg y Cyngor, cefnogaeth i bobl fregus, cefnogi busnesau a chreu swyddi a chynnal gwasanaethau mwyaf hygyrch y Cyngor yn lleol.

Cyhoeddwyd Cynllun Gwelliant 2015-17 ym Mai 2015 a chynhwysai bum amcan yn rhedeg ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r amcanion gwelliant ar gyfer 2016/17 yn barhad o'r pum amcan a osodwyd ym Mai 2015:

- Byddwn yn gwella ym mhob cyfnod allweddol ym maes addysg.
- Byddwn yn diogelu pobl, ifanc neu hen, tra byddwn yn lleihau dibyniaeth pobl ar ofal cymdeithasol.
- Rydym eisiau galluogi'n Sir i ffynnu.
- Yn y cyfamser, cynnal gwasanaethau mwyaf hygyrch y Cyngor
- Rydym eisiau bod yn sefydliad effeithlon, effeithiol a chynaliadwy.

Mae'r wybodaeth ar gyfer craffu yn canolbwyntio ar fanyldeb yr Amcanion Gwelliant ar gyfer 2016/17, a gynhwysir o fewn y Cynllun Gwelliant llawn. Cafodd yr amcanion eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn parhau â'r gweithgarwch perthnasol yr ymrwymwyd iddo eisoes yn yr

amcanion a chynnwys unrhyw gamau gweithredu newydd a gafodd eu dynodi. Mae'r Amcanion Gwelliant ar hyn o bryd yn rhwym wrth ymgynghori cyhoeddus a fydd yn rhedeg tan 22ain Ebrill 2016 ac ymgorfforir adborth o'r ymgynghoriad i mewn i'r amcanion, fel y bydd yn berthnasol, cyn eu dwyn gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo ar 12fed Mai 2016.

Cynllun drafft yw hwn ar gyfer craffu ac ar hyn o bryd mae rhai rhannau o'r cynllun heb eu cwblhau a thargedau heb eu gorffen, fe'u cwblheir cyn y penderfyniad gan y Cyngor.

Gwnaed rhai newidiadau i ffurf y cynllun i adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddaraf, ymateb i adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â'r hyn a ddysgwyd gan y Cyngor ei hun.

Y rhain yw:

- Egluro strwythur yr amcan fel bod pawb yn deall paham y cynhwysir gwybodaeth benodol.
- Parhau i sicrhau cysylltiadau gwell rhwng camau gweithredu a mesurau gyda thargedau cysylltiedig ar gyfer gwelliant.
- Gweu gofynion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i mewn i'n cynllunio, gan gynnwys sut mae'n gweithgarwch yn cyfrannu at saith amcan llesiant Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2016-2017 bydd Cyngor Sir Fynwy'n ymgymryd â dau asesiad sylweddol o angen a llesiant o fewn y Sir o ganlyniad i'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Bydd y wybodaeth a enillir yn ystod y gwaith hwn yn gosod sylfaen lawer dyfnach o dystiolaeth i gyhoeddi amcanion lles y Cyngor erbyn 31ain Mawrth 2017 (gofyniad dan y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol). Pan ddaw'n amser datblygu'r amcanion lles bydd angen ailfeddwl yr amcanion gwelliant yn unol ag egwyddorion y Ddeddf.

Cyflwynir rhan dau'r cynllun, yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd 2014-15, i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2016 pan fydd gwybodaeth wedi'i golygu'n llawn ar gael i'w chyhoeddi. Cyn hynny, cyflwynir i bwyllgorau dethol adroddiadau'n dangos cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd ar gyfer 2015-16.

<u>Craffu Aelodau:</u>

Wedi craffu'r adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Byddai'r Pennaeth Gweithrediadau'n ymchwilio i'r materion canlynol a godwyd ac yn adrodd nôl i Aelodau'r Pwyllgor Dethol:

  - Pa lefel o ailgylchu a gynhyrchir drwy losgi?

  - A gan yr Awdurdod fandad i arbed £250,000 drwy symud gwydr o'r deunyddiau eildro a gymysgwyd ar y cyd.

  - Cost effeithlonrwydd llosgi yn hytrach nag ailgylchu. Nodwyd nad dyma yw'r sefyllfa nawr ond fe ddibynnai ar y farchnad ailgylchu yn ariannol er bod gan yr Awdurdod dargedau ailgylchu osodwyd gan Lywodraeth Cymru, felly nid oedd llosgi popeth yn ymarferol.

- Nodwyd bod ymarferoldeb gwerthu deunyddiau mewn canolfannau ailgylchu wedi cael ei godi gyda Viridor.

- Ymgymerwyd â chynllun peilot yn Y Fenni, ynghylch casglu gwydr cyn gweithredu'r cynllun yn 2017.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch eiddo ym mherchnogaeth y Cyngor yng Nghil-y-coed, nodwyd bod hwn yn fater i'r Tîm Ystadau.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch ymweliad y Pwyllgor Dethol â Rover Way yng Nghaerdydd, dywedodd y Rheolwr Craffu y gellid ymchwilio i'r mater hwn.

Penderfynasom:

(i) Dderbyn yr adroddiad, gan nodi'i gynnwys;

(ii) Byddai'r Pennaeth Gweithrediadau yn ymchwilio'r materion a godwyd ac yn adrodd nôl i Aelodau'r Pwyllgor Dethol.

**8. Blaenraglen Waith Craffu.**

Derbyniasom Flaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynhelir y cyfarfod cyffredin nesaf ar ddydd Iau 30ain Mehefin 2016 am 10.00am.

- Bydd angen cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Dethol cyn 30ain Mehefin 2016. Bydd y Rheolwr Craffu'n ymchwilio i ddyddiad cyfleus ar gyfer y cyfarfod hwn.

- Bydd y Pennaeth Craffu'n ysgrifennu at yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Sir P. Murphy gyda'r bwriad i roi'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch gwerthu'r cyfleuster cyhoeddus yn Rhaglan.

- Bydd y Rheolwr Craffu'n cydgysylltu â'r Pennaeth Gweithrediadau ynghylch y Gweithgor Priffyrdd gyda'r bwriad o ychwanegu'r eitem hon i'r Flaenraglen Waith er mwyn ystyried atgyfodi'r gweithgor.

Penderfynasom dderbyn y Flaenraglen Waith, gan nodi'r pwyntiau a godwyd.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Cwmunedau Cryf held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

**9. Blaengynllunydd y Cabinet.**

Penderfynasom dderbyn Blaenraglen Waith y Cyngor a'r Cabinet, gan nodi'i chynnwys.

**10. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod cyffredin nesaf Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Brynbuga ar ddydd Iau 30ain Mehefin 2016 am 10.00am.

Trefnir cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Dethol ym Mehefin 2016.

**The meeting ended at Time Not Specified**